

Rhif 358 Cystadleuaeth Creu Gwefan bl 7, 8 a 9 Unigol neu Grwp

Wrth chwilio am ennillydd, yr oeddwn yn edrych i ddechrau am argraff y wefan arnaf wrth imi ei gweld am y tro cyntaf, gyda hierarchiaeth bendant i'r dudalen gartref (dewis ffont, maint ysgrifen, lliw a chynllun) yn denu fy llygad at y wybodaeth yn y drefn gywir, fel bod y prosesu'n rhwydd i'r darllennydd. Wrth lywio fy ffordd drwy wefan pob ymgeisydd, fe chwiliwn am wefan oedd yn syml i'w defnyddio, am wreiddioldeb syniadau ac elfennau technegol difyr i gynnal diddordeb, yn ogystal â digon o gynnwys tecst a llun, a hynny mewn Cymraeg graenus. Cafwyd dwy ymgais.

Gwybodaeth drylwyr am chwaraeon dwr oedd gan un wefan, yn cynnig pob gwybodaeth angenrheidiol i unrhyw un fyddai awydd dechrau ymddiddori yn y maes, yn cynnwys linciau i fapiau (a fyddent wedi bod yn fwy effeithiol fyth pe gallem glicio arnynt i'w gweld ar raddfa fwy), linciau i siop gwerthu offer ayb. Roedd lle i ychwanegu mwy o gynnwys eto i gorff y wefan, ee gwybodaeth ddifyr am bobl sydd wedi cyrraedd uchelfannau yn y maes, linciau youtube i ddangos y grefft efallai? Roedd hi'n wefan hawdd iawn i'w llywio, yn syml ac yn ateb yr angen. Roedd yr ail wefan yn cynnig ffordd wreiddiol tu hwnt o gyflwyno hanes dwy chwedl, nid drwy ddarllen y straeon, ond drwy ymateb i Gelert y ci yn sgwrsio, a minnau'n dewis un o dri ateb i gael symud i ran nesaf y stori. Roedd y syniad yn wych, ond hyd yma, nid yw'r ymgeisydd wedi caboli digon ar ei wefan, ac nid yw'n barod i'r darllennydd eto. Yn anffodus hefyd, wrth glicio ar eicon stori Catre'r Gwaelod, fe awn ol i stori Gelert eto. Teimlaf hefyd nad yw stori Gelert yn ddigon hawdd ei deall drwy gyfrwng y 'sgwrs' rhwng Gelert a ni, ac er mor ddoniol yw'r ddeialog, mae angen rhywbeth ychwanegol i'n denu i ddal ati hyd ddiwedd y stori (gêm ryngweithiol efallai?) Yn sicr, gyda thipyn o greu a chaboli eto, gallai hon ddatblygu i fod yn wefan lwyddiannus.

Mae'r wobr gyntaf i'r ymgeisydd sydd wedi creu gwefan lawn, ddifyr a deniadol, ac mae syniad cychwynnol da gan yr ail, ond mae llawer o waith datblygu a mireinio eto cyn iddi fod yn barod i'w chyflwyno fel gwefan gyhoeddus.

1. Gwion Rhisiart
2. Gobaith X